# Wylfa Newydd

# Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 4: Datblygu Economaidd – Y Gadwyn Gyflenwi

**Rhagfyr 2018**

Cyf PINS:  EN010007

This page is left intentionally blank

## 1.0 Datblygu Economaidd – Y Gadwyn Gyflenwi

### 1.1 Trosolwg ar yr Effeithiau

1.1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn cefnogi prosiect Wylfa Newydd a allai ddod â chyfleoedd a manteision economaidd a lles hirdymor i bobl Ynys Môn a Gogledd Cymru'n gyffredinol.

1.1.2 Mae'r Cyngor o'r farn bod yr effeithiau cadarnhaol a negyddol canlynol yn debygol o ddeillio o gynigion prosiect Wylfa Newydd. Bydd ehangder, dyfnder a pharhad yr effeithiau'n cael eu teimlo fwyaf gan y cymunedau sydd agosaf i'r prif safle, ac yn cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan ddull masnachol, strategaeth cadwyn gyflenwi ac ymrwymiadau'r datblygwr i gynyddu'r manteision a rheoli / lliniaru'r effeithiau negyddol yn effeithiol.

1.1.3 **Effeithiau cadarnhaol prosiect Wylfa Newydd ar y gadwyn gyflenwi:**

a) Gwariant lleol
b) Cyfleoedd i fusnesau
c) Gadael gwaddol o uwchsgilio a gwella cystadleurwydd
d) Porthladd Caergybi (o bosib)
e) Safleoedd ac Adeiladau
f) Cyfleoedd anuniongyrchol

1.1.4 **Effeithiau niwtral prosiect Wylfa Newydd ar y gadwyn gyflenwi:**

a) Er y derbynnir y bydd rhywfaint o wariant ac ymwelwyr yn Amlwch, heb fuddsoddi mewn adfywio'r ardal leol ni enillir y manteision mwyaf.

1.1.5 **Effeithiau negyddol prosiect Wylfa Newydd ar y gadwyn gyflenwi:**

a) Dadleoli
b) Rhai busnesau lleol a hunan-gyflogwyr yn crebachu (dim effaith ychwanegol)
c) Y sector twristiaeth yn crebachu (wele'r Bennod Twristiaeth yn y LIR)
d) Senario o lwydd ac aflwydd.

**Pwysleisir bod y ffaith na welodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi (SCAP) drwy gydol y broses wedi bod yn rhwystr i asesu a llunio barn wybodus am ba mor ddigonol yw'r mesurau a'r dull sydd gan y datblygwr mewn golwg i fynd i'r afael gyda, ynghyd â lleihau'r effeithiau andwyol a chynyddu'r manteision.**

### 1.2 Cyd-destun Economaidd-Gymdeithasol Ynys Môn

1.2.1 Nodweddir economi'r Ynys gan ei strwythur a'i chyflogau / cynhyrchedd. Fe wnaeth yr argyfwng ariannol ac economaidd o 2008 ymlaen daro'r Ynys yn galed, ac mae'r sefyllfa'n parhau. Wrth i fusnesau mawr yr Ynys gau, e.e. Alwminiwm Môn, Welsh Country Foods ac Eaton Electrical, ac wrth i gynhyrchu yn Wylfa A ddod i ben, collwyd bron i fil o swyddi.

1.2.2 Roedd Alwminiwm Môn a Wylfa A, yn enwedig, yn gyflogwyr mawr ers talwm ar yr Ynys gan dalu cyflogau da iawn a darparu amodau gwaith cymharol i

gyflogwyr eraill ar Ynys Môn. Yn rhywle sydd wedi profi problemau economaidd hirdymor, ac ar adeg o argyfwng ariannol ac economaidd yn fyd-eang, mae gweld cau cyflogwyr mawr a fu'n darparu swyddi sicr gyda chyflogau da wedi cael effaith gymdeithasol aruthrol ac wedi bod yn her sylweddol nid yn unig i'r unigolion dan sylw ac i'w cymuned, ond hefyd i bolisi datblygu economaidd y rhanbarth. Mae'r effeithiau cronnus a oedd yn gysylltiedig â chau Alwminiwm Môn wedi gwaethygu'r effeithiau'n ymwneud â datgomisiynu'r orsaf bŵer. Ar ôl i Alwminiwm Môn gau, collodd 652 o bobl eu gwaith a chollwyd 248 o swyddi eraill yng ngweddill yr economi oherwydd yr effeithiau anuniongyrchol ac o ganlyniad i hynny. Roedd y cyflog cyfartalog yn y swyddi hyn 65% yn fwy na chyflog cyfartalog swyddi eraill yn yr economi leol. Yn 2013 dyma oedd canfyddiadau'r HSE ynglŷn â Wylfa A [1]:

a) Roedd Wylfa A yn cyflogi 3.5% o'r gweithlu cyflogedig ar Ynys Môn;
b) Amcandybiwyd bod cau'r orsaf wedi effeithio ar 406 o oedolion preswyl eraill a 450 o blant o ganlyniad i fod yn rhan o deuluoedd gweithwyr Wylfa;
c) Roedd disgwyl i tua 173 o oedolion (gweithwyr preswyl a phartneriaid) a 67 o blant (yn cynrychioli 98 o gartrefi) symud i ffwrdd o'r ynys yn llwyr ar ôl i'r Paratoadau Gofal a Chynnal a Chadw ddod i ben;
d) Yn ogystal â'r swyddi a gollwyd o'r orsaf ei hun, roedd 108 o swyddi eraill yn dibynnu ar wariant yr orsaf;
e) Aeth lefel y cyflogau cyfartalog i lawr o 2.1%

1.2.3 Mae cau'r gweithfeydd hyn a thorri'n ôl ar y gweithlu wedi effeithio'n ddrwg ar strwythur economi'r ynys drwy leihau nifer y diwydiannau / cyflogwyr gweithgynhyrchu gwerth uchel a nifer y swyddi sy'n talu'n dda o ganlyniad. O'r herwydd mae cyflogau cyfartalog wedi eu gorfodi i ostwng ers 2008[2].

1.2.4 Ar y cyfan mae cyflogaeth ar y tir mawr yn talu'n well ac mae'r holl breswylwyr sy'n teithio yno'n ddyddiol i weithio'n dystiolaeth o hyn. Am bob mil o weithwyr ar Ynys Môn, mae 200 yn gweithio oddi ar yr Ynys. Gyda thua 9,400 o bobl yn cymudo oddi ar yr ynys a dim ond 3,500 yn cymudo i weithio ar yr ynys, mae'n golygu bod tua 5,900 o bobl yn llifo allan i weithio [3]. Mae hyn yn gwaethygu'r ffigurau GVA. Fodd bynnag, mae enillion cyfartalog gweithle a phreswylwyr yr Ynys yn is na'r cyfartalog cenedlaethol a'r bwlch rhwng Ynys Môn a Chymru wedi cynyddu dros y cyfnod ar gyfer y ddau fesur. Mae enillion ar Ynys Môn (£446.90 yr wythnos) yn sylweddol is na'r cyfartalog ar draws Cymru (£509.00)[4].

1.2.5 Mae cyfraddau cyflogaeth yn uwch ar Ynys Môn nag ar draws Cymru gyda bron i 77% o'r preswylwyr mewn gwaith. Fodd bynnag, fel y nodwn uchod, mae'r


[1] Wylfa Newydd – Datganiad Amgylcheddol (Link)
[2] Marchnad lafur y DU: Hydref 2018 https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/october2018?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/october2018
[3] SPG - Papur Pwnc 4: Datblygu Economaidd (Link)
[4] Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year

cyflogau cyfartalog yn gymharol isel. Hefyd fel y nodwn uchod, mae lefelau hunangyflogaeth ar yr Ynys yn llawer uwch - 13.5% - o'i gymharu â'r rhanbarth ehangach a Chymru'n gyffredinol sy'n 9.5%. Mae'r dwysedd swyddi isel yn ffactor bwysig o ran gorfodi preswylwyr i fynd yn hunangyflogedig, yn enwedig mewn busnesau ffordd o fyw.[5]

1.2.6 Cafodd cyd-destun economi Ynys Môn ei danlinellu mewn data a gyhoeddwyd gan ONS yn 2016 (bydd y diweddariad nesaf ar 12 Rhagfyr 2018). Yn benodol, yn 2016 roedd GVA y pen yng Nghymru (mesur o gynhyrchedd) yr isaf yn y DU ar £19,140. Mae'n arwyddocaol mai Ynys Môn oedd yn parhau i fod â'r GVA isaf yn y DU ar £13,655. Gan Ynys Môn y mae'r GVA isaf y pen o unrhyw ranbarth NUTS3 ar draws y DU, gyda GVA y pen o 51.8%.[6]

1.2.7 Yn ôl StatsCymru mae'r Enillion Wythnosol Gros ar yr ynys yn eithriadol gyfnewidiol, ac ar wahân i ddau allanolyn maen nhw'n gyson o dan y cyfartalog ar gyfer Cymru. Fodd bynnag mae cyflog wythnosol Ynys Môn bellach 12.2% yn is na'r cyfartalog ar draws Cymru, yr uchaf mewn 10 mlynedd.[7]

Ffigwr 1.0 – Cyflog Wythnosol Preswylwyr Ynys Môn / Cymru[8]





1.2.8 Ar ben hyn, mae cyflogau wythnosol preswylwyr ar Ynys Môn hefyd yn isel. Yn 2016 roedd cyflog blynyddol preswylwyr Ynys Môn - £23,488 – yn is na chyflog preswylwyr Cymru (£25,667) ac yn sylweddol is nag ar draws y DU sef £28,213. Aeth cyflog blynyddol preswylwyr ar Ynys Môn i lawr o 0.6% rhwng 2012 a 2016 ac mae'n 7.3% yn is na'r cyfartalog ar draws Cymru[9].

[5] Proffil y Farchnad Lafur – Ynys Môn (Link)
[6] Gwerth ychwanegol gros (GVA) rhanbarthol a gwerth ychwanegol gros is-ranbarthol (Link)
[7] Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year
[8] SPG – Papur Pwnc 4: Datblygu Economaidd (Link)
[9] Ibid

1.2.9 Mae gan brosiect Wylfa Newydd felly botensial i gyfrannu at newid strwythur economi Ynys Môn yn gadarnhaol, creu swyddi sy'n talu'n well yn ystod pob un o'i gyfnodau, symud busnesau lleol i fyny'r gadwyn werth drwy gontractau gwasanaethau caffael a chymorth a thrwy ysgogi sefydlu busnesau newydd a denu mewnfuddsoddiad yn gysylltiedig â'r prosiect.

Ffigwr 2.0 – Cyflog Wythnosol Gweithle Ynys Môn / Cymru[10]




## 1.3 Proffil Busnes Ynys Môn

1.3.1 Mae'n greiddiol rhoi cyd-destun a deall gwneuthuriad a strwythur y busnesau sy'n rhan o economi Ynys Môn a sut y gallent lwyddo, neu beidio, i achub ar y cyfleoedd a fyddai'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi Wylfa Newydd.

[10] Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn (£) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year

Tabl 1.0 – Proffil Busnes Ynys Môn[11]

| | **Ynys Môn** | **Ynys Môn %** | **Cymru** | **Cymru %** |
|---|---|---|---|---|
| Busnesau | | | | |
| Micro 0-9 | 2,245 | 89.8 | 92,235 | 89.1 |
| Bach 10-49 | 225 | 9.0 | 9,550 | 9.2 |
| Canolig 50-249 | 25 | 1.0 | 1,430 | 1.4 |
| Mawr 250+ | 5 | 0.2 | 315 | 0.3 |
| Cyfanswm | 2,500 | - | 103,530 | - |
| | | | | |
| Unedau Lleol | | | | |
| Micro 0-9 | 2,560 | 84.8 | 105,095 | 83.1 |
| Bach 10-49 | 395 | 13.1 | 17,665 | 14.0 |
| Canolig 50-249 | 60 | 2.0 | 3,210 | 2.5 |
| Mawr 250+ | 5 | 0.2 | 500 | 0.4 |
| Cyfanswm | 3,020 | - | 126,470 | - |

1.3.2 Mae'r mwyafrif llethol o fusnesau ar yr Ynys yn rhai micro, bron i 90% o'r economi. Mae hyn yn cymhlethu darlun y gadwyn gyflenwi o ganlyniad i Wylfa Newydd oherwydd ni all y mwyafrif helaeth o'r busnesau hyn - heb ymyriadau amserol a phriodol - gyfrannu'n realistig at y datblygiad. Dengys y diagram isod ble y mae'r Cyngor Sir yn credu y mae'r pecynnau gweithgaredd / gwaith ac a ydynt yn rhai union neu anuniongyrchol. Felly mae cymorth busnes effeithiol yn hanfodol i roi'r wybodaeth a'r cymorth iawn i gwmnïau fel y medrant ddeall maint a chwmpas y cyfleoedd hyn. Bydd Wylfa Newydd yn disgwyl amrywiaeth o allu ac achrediad ar gyfer pob agwedd ar y gadwyn gyflenwi ac agosâ’n byd i'r safle - yr ynys niwclear - y bydd y rhain, y mwyaf arbenigol y byddant.

1.3.3 O'i gymharu â Gogledd Cymru a Chymru'n gyffredinol, mae maint y trosiant a gynhyrchir gan fusnesau ar yr Ynys yn is ac mae cyfran is o fusnesau'n cynhyrchu £250,000 neu fwy o drosiant. Mae gan 22.9% o fusnesau Ynys Môn drosiant o dros £250,000 - y gyfradd ar draws Gogledd Cymru yw 25.3% a 25.6% ar draws Cymru. Yn y band refeniw isaf rhwng £0 a £49,000, mae gan 24.1% o fusnesau Ynys Môn y trosiant hwn o'i gymharu â 20.6% yng Ngogledd Cymru a 20.7% yng Nghymru. Mae busnesau sy'n cynhyrchu trosiant o £5m neu fwy yn debyg rhwng yr holl ardaloedd sef 0.2%. Eto mae hyn yn dangos y realiti a'r drafferth y byddai nifer o'n busnesau yn ei gael gydag ymuno â chadwyn gyflenwi Wylfa Newydd [12].


1.3.4 Heb os gallai datblygu Wylfa Newydd helpu i ail-gydbwyso economi Ynys Môn o ran ei sylfaen fusnesau drwy gynnig cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fawr, yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredol. Bydd y prosiect hefyd yn fusnes

[11] Proffil y Farchnad Lafur – Ynys Môn (Link)
[12] SPG – Papur Pwnc 4: Datblygu Economaidd (Link)

pwysig gyda throsiant uchel yn economi'r ynys. Yn wir mae Ynys Môn yn gartref i nifer o fusnesau sydd â'r enw da, profiad a'r sgiliau i chwarae rhan weithredol yn y gadwyn gyflenwi niwclear.

1.3.5 Mae cyfleoedd cadwyn gyflenwi sylweddol i fusnesau presennol a rhai newydd posib ar gyfer economi Ynys Môn a Gogledd Cymru gan gynnig cyfleoedd pellach i gau'r bwlch yng Nghymru o ran y mesur hwn, ond byddai angen gwneud llawer iawn o waith i weld hyn yn digwydd ynghyd â sicrhau'r cyllid angenrheidiol os yw hyn i fod yn ystyrlon.

Ffigwr 3.0 – Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi, Gorsaf Niwclear Wylfa Newydd (IACC, 2017)




1.3.6 Mae Horizon wedi ymrwymo i ddefnyddio busnesau ar draws y rhanbarth fel rhan o'i gadwyn gyflenwi ac mae cytundeb rhwng pob Cyngor Sir bod yn rhaid i Ogledd Cymru fanteisio'n llawn ar y cyfle hwn i hwyluso ac annog gymaint o fusnesau â phosib. Efallai y bydd angen cymorth ar rai o'r cwmnïau hyn i gwrdd â'r gofynion achredu a chymhwysedd lleiaf sy'n ofynnol i fanteisio ar y cyfleoedd sylweddol a fydd yn gysylltiedig â'r amryw byd o brosiectau fydd yn digwydd yng Ngogledd Cymru. Felly mae cryn waith i'w wneud i "baru" busnesau lleol â'r cyfleoedd yn Wylfa Newydd.

1.3.7 Mae nifer o gwmnïau sydd eisoes yn cynnig ac arbenigo mewn darparu gwasanaethau Union ac Anuniongyrchol ar draws Gogledd Cymru a allai – mewn theori – fod yn rhan o gadwyni cyflenwi'n gysylltiedig â'r prosiectau seilwaith mawr.

Tabl 2.0 – Busnesau Gogledd Cymru sy'n Darparu Gwasanaethau Union ac Anuniongyrchol [13]

| | Ynys Môn | Conwy | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Wrecsam | Gogledd Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm - Uniongyrchol | 375 | 635 | 555 | 955 | 795 | 725 | 4,040 |
| Cyfanswm - Anuniongyrchol | 325 | 610 | 565 | 825 | 640 | 610 | 3,575 |
| Cyfanswm | 700 | 1,245 | 1,120 | 1,780 | 1,435 | 1,335 | 7,615 |

1.3.8 Yn yr ardaloedd hyn mae gwasanaethau uniongyrchol yn cynnal tua 24,065 o swydd, a rhai anuniongyrchol yn cynnal 60,715 o swyddi. Felly mae 84,780 o swyddi - 26% o'r holl gyflogaeth yn y rhanbarth – yn cael eu cynnal, sy'n nifer greiddiol i economi'r rhanbarth.

Tabl 3.0 – Dadansoddiad Manwl o Wasanaethau Uniongyrchol Rhanbarthol yn ôl Sector[14]

| | Ynys Môn | Conwy | Dinbych | Sir y Fflint | Gwynedd | Wrecsam | Gogledd Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Amgylcheddol | 5 | 20 | 10 | 20 | 15 | 10 | 80 |
| Gwaith Paratoi a Chlirio Safle | 5 | 5 | 10 | 15 | 5 | 10 | 50 |
| Crefftau Masnach Arbenigol | 180 | 295 | 250 | 420 | 365 | 345 | 1,855 |
| Peirianneg Sifil | 115 | 155 | 160 | 210 | 275 | 165 | 1,080 |
| Gwasanaethau Archwilio | 10 | 5 | 5 | 25 | 15 | 15 | 75 |
| Peirianneg Fecanyddol | 55 | 130 | 90 | 215 | 90 | 125 | 705 |
| Darnau Sbâr a Llogi Offer | 0 | 10 | 10 | 30 | 15 | 35 | 100 |
| Deunyddiau Adeiladu | 5 | 15 | 15 | 20 | 15 | 15 | 85 |
| Nwyddau Trydanol | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 | 5 | 10 |
| **Cyfanswm** | **375** | **635** | **555** | **955** | **795** | **725** | **4,040** |

[13] Y Rhaglen Gadwyn Gyflenwi Ranbarthol – Gwasanaethau Cymorth Busnes: Dadansoddiad o'r Bylchau, 2017 (Atodiad 4A)
[14] Ibid

Tabl 4.0 – Dadansoddiad Manwl o Wasanaethau Anuniongyrchol Rhanbarthol yn ôl Sector[15]

| | **Ynys Môn** | **Conwy** | **Dinbych** | **Sir y Fflint** | **Gwynedd** | **Wrecsam** | **Gogledd Cymru** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TG | 40 | 100 | 120 | 205 | 100 | 115 | 680 |
| Cyflenwadau Tanwydd | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 30 |
| Nwyddau / Gwasanaethau Meddygol | 45 | 85 | 85 | 75 | 75 | 90 | 455 |
| Nwyddau Swyddfa | 5 | 10 | 10 | 25 | 5 | 20 | 75 |
| Trafnidiaeth | 45 | 70 | 85 | 205 | 75 | 140 | 620 |
| Diogelwch | 5 | 10 | 15 | 15 | 5 | 15 | 65 |
| Bwyd a Diod | 15 | 25 | 45 | 35 | 30 | 30 | 180 |
| Rheoli Cyfleusterau | 75 | 90 | 90 | 110 | 115 | 85 | 565 |
| Rheoli Gwastraff | 5 | 10 | 5 | 15 | 10 | 10 | 55 |
| Logisteg | 10 | 15 | 20 | 25 | 20 | 15 | 105 |
| Personél / Adnoddau Dynol | 0 | 15 | 20 | 35 | 10 | 30 | 110 |
| Llety | 55 | 145 | 35 | 30 | 155 | 25 | 445 |
| Hyfforddiant | 20 | 30 | 30 | 45 | 35 | 30 | 190 |
| **Cyfanswm** | **325** | **610** | **565** | **825** | **640** | **610** | **3,575** |

1.3.9 Dengys y ddau dabl hwn, yn ddaearyddol ac o ran sector, y gwahanol fusnesau yn y categorïau gwasanaeth "uniongyrchol" ac "anuniongyrchol". Bydd y gwaith gosod pibelli enfawr a fydd yn deillio o Wylfa Newydd yn cynnig amryw o gyfleoedd i'r cwmnïau hyn gael ennill gwaith, gan efallai arwain at berthynas a chontractau hirdymor. Fodd bynnag rhaid nodi bod y gadwyn gyflenwi'n fregus i raddau oherwydd natur economi Ynys Môn, ac yn wir economi Gogledd Cymru'n gyffredinol. Nid yw'r dwysedd poblogaeth a'r gweithlu angenrheidiol ar gael i ail-lenwi swyddi ac mae hyn yn cynyddu'r risg o ddadleoli.

1.3.10 I wireddu'r cyfleoedd hyn, bydd angen cymorth ar lawer o gwmnïau i ddeall ble y mae'r cyfleoedd hyn a sut y gallent fanteisio arnynt.

1.3.11 Rhaid i'r cymorth hwn ddod mewn sawl ffurf. O ddarparu cymorth busnes pwrpasol i gwmnïau, cymorth wedi'i deilwrio ar gyfer achrediad ISO a safonau cydnabyddedig eraill, trwodd at eiddo a safleoedd hanfodol. Nodwyd eisoes gan gwmni ymgynghori ar eiddo nad oes digon o safleoedd parod-i-dyllu ar Ynys Môn na'n wir yng Ngogledd Cymru'n gyffredinol. Y risg wirioneddol yw bod y "buddsoddiad a'r swyddi'n mynd i lawr yr A55 i ardal Manceinion-Lerpwl"[16] ac y collir

[15] Ibid
[16] 'Wylfa supply chain jobs could drain away to England' (Link)

y gwaddol a fydd ar ôl i'r gadwyn gyflenwi leol a rhanbarthol. Byddai hynny'n annerbyniol. Mae angen buddsoddi ar y dechrau mewn safleoedd modern addas i'r pwrpas er mwyn galluogi a hwyluso twf organig y cwmnïau wrth iddynt ennill contractau (a datblygiadau cysylltiedig) gan Wylfa Newydd a hefyd fel bod gan fewnfuddsoddwyr a chwmnïau mawr a fyddai'n ystyried lleoli'n hirdymor ar Ynys Môn opsiynau i ddewis ohonynt. Rhaid gwneud pethau mor hawdd â phosib i fusnesau dyfu a sefydlu er mwyn dod yn rhan o gadwyn gyflenwi Wylfa Newydd.

Tabl 5.0 - Asesiad o'r Effeithiau Lleol Posib

| **Effaith** | **Crynodeb o'r Effaith** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** |
|---|---|---|
| Gwariant lleol | Byddai gwariant lleol o £200m-£400m yn cael effaith gadarnhaol yn syth, ond rydym o'r farn bod y £1.5bn a wariwyd yn Hinkley yn gyraeddadwy. | Cadarnhaol |
| Cyfleoedd i fusnesau | Bydd datblygiad Wylfa Newydd yn creu cyfleoedd i fusnesau ennill contractau am nifer o flynyddoedd gan felly sicrhau bod swyddi'n cael eu creu. | Cadarnhaol |
| Gwaddol o uwchsgilio a gwella cystadleurwydd | Bydd angen i fusnesau'r ardal uwchsgilio i ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Yn ei dro bydd hyn yn gadael gwaddol parhaol o ennill contractau pellach a dod yn fwy cystadleuol. | Cadarnhaol |
| Porthladd Caergybi | Bydd sicrhau bod y porthladd yn chwarae rôl weithredol ac ystyrlon yn y gadwyn gyflenwi'n arwain at fuddsoddiad uniongyrchol gan greu nifer o swyddi dros y cyfnodau adeiladu a gweithredol, am nifer o flynyddoedd. | Cadarnhaol |
| Safleoedd ac adeiladau | Byddai datblygiad Wylfa Newydd yn arwain at greu safleoedd ac adeiladau ychwanegol ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru ar gyfer busnesau brodorol a mewnfuddsoddwyr. | Cadarnhaol |
| Cyfleoedd anuniongyrchol | Er na fyddent yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd, bydd digonedd o gyfleoedd anuniongyrchol o ddarparu llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu i goginio, glanhau ac yn y blaen. | Cadarnhaol |
| Dadleoli | Mae potensial sylweddol y bydd y datblygiad - yn enwedig o ganlyniad i fargen gyflogau Hinkley - yn effeithio'n andwyol ar y gadwyn gyflenwi leol gan | Negyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | achosi dadleoli a chwmnïau lleol yna'n methu ag ail-lenwi swyddi. | |
| Busnesau lleol a hunan-gyflogwyr yn crebachu | Y bygythiad y bydd prosiect Wylfa Newydd yn denu busnesau BBaCh, microfusnesau a phobl hunangyflogedig i weithio ar y prosiect gan arwain at grebachu'r busnesau hyn yn yr economi leol. Gallai hyn hefyd arwain at lai o bersonél ar gael i gyflawni gwaith domestig a diwydiant ysgafn (busnes fel arfer). | Negyddol |
| Y sector twristiaeth yn crebachu | Wele'r bennod ar Dwristiaeth yn y LIR | Negyddol |
| Senario o lwydd ac aflwydd | Byddai'r effeithiau negyddol a welir drwy gydol y cyfnod adeiladu'n aros ar ôl i effeithiau cadarnhaol y cyfnod adeiladu orffen. | Negyddol |

## 1.4 Y Sefyllfa Bolisi

1.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ar y Cyd Gwynedd a Môn (JLDP) a gafodd ei fabwysiadu yng Ngorffennaf 2017 yn cyflwyno'r cyd-destun polisi lleol ar Wylfa Newydd. Polisi PS9: y bydd Wylfa Newydd a'i Ddatblygiadau Cysylltiedig yn ymgysylltu'n gynnar â hyrwyddwr y prosiect i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a hir (maen prawf 9). O dan faen prawf 9, mae PS9 hefyd yn disgwyl i'r hyrwyddwr gyflwyno'r "strategaethau a'r cynlluniau darparu caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio" i'r Cyngor fel rhan o unrhyw gais.

1.4.2 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) Wylfa Newydd a fabwysiadwyd yn 2018 yn amlinellu ymhellach pa mor bwysig yw'r datblygiad mewn cyd-destun polisi i Ynys Môn, mae Egwyddor Arweiniol GP1: Cefnogi Rhaglen Ynys Ynni Môn a Pharth Menter Môn yn atgyfnerthu'r cyfraniad disgwyliedig i economi cadwyn gyflenwi'r Ynys ac mae GP2: Creu Swyddi a Datblygu Sgiliau'n Lleol (tudalen 64) yn nodi'n glir beth yw ein disgwyliadau o ran sut y bydd Horizon yn mynd ati i greu gwaith.

## 1.5 Porthladd Caergybi

1.5.1 Gall Porthladd Caergybi chwarae rhan bwysig a sylweddol yng nghadwyn gyflenwi Wylfa Newydd. Mae ei leoliad o reidrwydd yn gofyn iddo chwarae rhan weithredol yn y gadwyn gyflenwi a phe bai Horizon yn dangos ei ymrwymiad i'r ardal, gallai'r allbynnau arwain at:

a) Cadw a gwneud y mwyaf o fanteision buddsoddiad mawr fel datblygiad Wylfa Newydd.

b) Effaith gadarnhaol ar draws Gogledd Cymru gan gynnal twf y gadwyn gyflenwi a gweithgynhyrchu yn y dyfodol.

1.5.3 Mae Stena Line sef perchnogion a gweithredwyr Porthladd Caergybi, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn eisoes wedi ymrwymo a buddsoddi symiau helaeth o arian mewn amrywiol arolygon ac astudiaethau i sicrhau y gallai'r porthladd achub ar y cyfleoedd a fyddai'n deillio o Wylfa Newydd. Mae hyn yn arwydd o ymrwymiad y partneriaid i'r cynllun a nawr mae angen ymrwymiad gan Horizon er mwyn gallu buddsoddi a pharatoi ymhellach at y dyfodol.

1.5.4 Felly mae Porthladd Caergybi'n darparu gwaith, yn creu cyfleoedd i fusnesau ac yn helpu i gynnal gwasanaethau yn yr economi leol a hefyd yn rhoi mynediad at farchnadoedd i gwmnïau ar draws Cymru a'r DU. Drwy ddod yn rhan o gadwyn gyflenwi Wylfa Newydd, gallai hefyd sicrhau gwaddol i'r ardal yn y dyfodol.

## 1.6 Cyfleoedd yn y Dyfodol

1.6.1 Ym marn y Cyngor Sir mae datblygiad Wylfa Newydd yn gyfle i wella nifer o feysydd yn economi Ynys Môn a chyflwyno newid gwirioneddol, parhaus a thrawsnewidiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1.6.2 Gall Wylfa Newydd - ac wrth i bartneriaid barhau i weithio'n gydweithredol - chwarae rhan bwysig mewn helpu i gyflwyno'r newidiadau hyn drwy achub ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi cynaliadwy union ac anuniongyrchol o'r datblygiad, ond mae angen cymorth pellach i wireddu'r uchelgais a manteisio ar y cyfleoedd hyn.

1.6.3 Gallai'r datblygiad helpu i sefydlogi'r nifer o bobl iau fel cyfran o'r boblogaeth drwy leihau faint sy'n symud allan o'r ardal o ganlyniad i greu a chynnig cyfleoedd gwaith ystyrlon. Ar yr un pryd bydd y swyddi newydd fydd yn cael eu creu'n denu gweithwyr mudol ac yn cael effaith o ganlyniad ar y gyfran gyffredinol o'r boblogaeth a gynrychiolir gan y grŵp oedran gweithio (16-64 oed).

1.6.4 Mae'r meysydd isod yn feysydd lle gallai sbarduno'r gadwyn gyflenwi ar lefel leol gael effaith drawsnewidiol:

a) GVA - gwella perfformiad GVA Ynys Môn yng nghyd-destun y DU

b) GVA y pen - gwella perfformiad Ynys Môn gan wrthdroi effeithiau'r holl swyddi a gollwyd

c) Creu gwaith - cyfleoedd gwaith hirdymor sy'n talu'n dda i breswylwyr lleol

d) Cadw pobl iau - atal y llif o bobl ifanc sy'n symud allan a chynnig cyfleoedd / gyrfaoedd i ddyheu amdanynt i bobl ifanc

e) Enillion cyfartalog - gwella cyflogau "ar ôl treth" i breswylwyr

f) Gwella sgiliau - sicrhau bod gan yr ardal leol y sgiliau sydd eu hangen fel bo'r economi'n parhau i wella

1.6.5 Mae datblygu Parc Gwyddoniaeth Menai (MSParc) yng Nghaerwen ar Ynys Môn hefyd yn gyfle unigryw i wella ac uwchsgilio'r gadwyn gyflenwi leol mewn ffordd gydweithredol. Rydym felly'n croesawu a chefnogi'r Memorandwm Dealltwriaeth

rhwng Prifysgol Bangor, Coleg Imperial Llundain a Hitachi GE. Dengys yn glir y bwriad i greu "peirianwyr a diwydiant y dyfodol" a dymunwn weld y cytundeb hwn yn ffynnu a gwybodaeth yn y pen draw'n trosglwyddo a chyfrannu at weledigaeth y Cyngor o greu canolfan gorfforaethol yng Ngogledd Cymru. Oherwydd mai Wylfa Newydd fydd yr Uwch-Adweithydd Dŵr Berwedig cyntaf yn y DU, bydd yn rhoi ffocws ystyrlon i'r bartneriaeth rhwng y sefydliadau hyn i "ddatblygu arbenigedd gwirioneddol mewn technoleg BWR nawr ac ar gyfer y dyfodol."[17]

1.6.6 Bydd y cyfleoedd uchod ond yn digwydd drwy gydweithrediad a chadwyn gyflenwi gynhwysol a fydd yn bwydo'n uniongyrchol drwy'r Haenau a fydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd. Derbynnir y gallai'r rhan fwyaf o fusnesau ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru chwarae rhan weithredol o Haen 3 i lawr, ac y medrant ddarparu gwasanaethau arbenigol - mae'n debyg drwy gontract fframwaith gan gyflenwr Haen 2. Gallai cwmnïau Haenau 3 a 4 ddarparu gwasanaethau fel y rhai a restrir yn Ffigyrau 2.0 a 3.0 uchod, ac mae nifer ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru a allai ddod yn rhan o gadwyn gyflenwi Wylfa Newydd a chreu gwaddol gwirioneddol i'r cwmnïau.

## 1.7 Cydweithredu

1.7.1 Ers rhai blynyddoedd mae swyddogion y Cyngor Sir wedi bod yn ceisio deall strategaeth fasnachol a dull cadwyn gyflenwi Horizon yn well.

1.7.2 Er bod y Cyngor yn siomedig na chafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi (SCAP) ei gyflwyno gyda'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO), mae egwyddorion wedi cael eu sefydlu drwy gydol y broses a'u ffurfioli yn y Datganiadau Tir Cyffredin. Mae'r rhain yn cynnwys y bydd cwmnïau lleol ac ar draws Gogledd Cymru, Cymru a'r DU yn gyffredinol yn manteisio ar y cyfleoedd caffael a chadwyn gyflenwi.

a) Mae natur y dechnoleg a'r prosiect adeiladu o'r fath fel y bydd yn cynnig cyfleoedd gwaith a chadwyn gyflenwi ar draws gwahanol sectorau.

b) Mae Horizon wedi ymrwymo i gaffael gwerth 60% o'i holl wariant cyfalaf o'r DU. Bydd y partïon yn gobeithio gwneud y mwyaf o siâr Cymru drwy roi contractau i fusnesau presennol a newydd a thrwy gyd-fentrau busnes â chwmnïau o'r tu allan i Gymru a thrwy fewnfuddsoddi.

1.7.3 Er na chafodd y SCAP ei weld cyn y broses DCO, mae Horizon wedi nodi bod ei egwyddorion sylfaenol fel a ganlyn ac y bydd yn eu hadolygu wrth i gynnydd gael ei wneud:

a) Manteisio ar bob cyfle posib i'r ardal leol;

b) Cefnogi cadwyn gyflenwi gynaliadwy;

c) Rhoi digon o rybudd pan fydd cyfleoedd yn codi;

[17] Hitachi-GE, Imperial a Phrifysgol Bangor yn datblygu arbenigedd BWR yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig https://www.bangor.ac.uk/research-innovation-and-impact-office/newyddion/hitachi-ge-imperial-a-phrifysgol-bangor-yn-datblygu-arbenigedd-ym-maes-adweithyddion-d%C5%B5r-berwedig-bwr-yn-y-deyrnas-unedig-a-chymru-29319

d) Symleiddio'r broses o gofrestru cyflenwyr (un cofrestriad ar gyfer y Prosiect cyfan);

e) Gweithio'n gydweithredol ag awdurdodau statudol;

f) Cefnogi parodrwydd busnesau;

g) Mapio'r gadwyn gyflenwi;

h) Rhannu'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyflawni gwaith yn Wylfa Newydd;

i) Monitro perfformiad cyflenwyr (hyrwyddo perfformiad da);

j) Cefnogi gweithredu gwasanaethau sgiliau a swyddi;

k) Canolbwyntio ar gyfleoedd datblygu hirdymor sy'n gynaliadwy ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen;

l) Monitro effaith y gwaith y tu allan i'r prosiect.

1.7.4 Yn ogystal, mae'r Cyngor Sir, NWEAB a Horizon hefyd wedi cytuno i geisio sicrhau'r agweddau uchelgeisiol canlynol o ganlyniad i'r datblygiad:

a) Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi yng Ngogledd Cymru dros y cyfnod adeiladu a gwasanaethau cysylltiedig;

b) Creu pwynt canolog ar gyfer dosbarthu gwybodaeth i'r gadwyn gyflenwi fel bod pawb yn deall beth yw'r gofynion sylfaenol a / neu gyplysu hyn â'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu / cyfleoedd marchnad;

c) Hyrwyddo cyd-ymrwymiad i gryfhau'r gadwyn gyflenwi a fydd yn gysylltiedig â rhaglen waith Wylfa Newydd;

d) Cyfrannu at ddatblygu polisi ar gyfer y gadwyn gyflenwi;

e) Datblygu a gweithredu strategaethau ar gyfer y gadwyn gyflenwi a ddefnyddir yn Wylfa Newydd;

f) Rhannu gwybodaeth am arferion gorau a gwersi a ddysgir gydag aelodau a sefydliadau partner yn y sectorau cyhoeddus a phreifat;

g) Rhoi sylw i'r blaenoriaethau yn ôl gwasanaeth;

h) Gweithredu a rhannu arferion gorau;

i) Creu cadwyn gyflenwi gynaliadwy sy'n para'n hirach na diwedd y cyfnod o adeiladu Wylfa Newydd;

j) Dod yn arweinydd yn y DU ar y dull cydweithredol o ddatblygu'r gadwyn gyflenwi sy'n cynnwys y sectorau cyhoeddus a phreifat ac aelodau o'r gadwyn gyflenwi; a

k) Cydgysylltu'r ymgysylltu â'r farchnad ac unrhyw ddigwyddiad cadwyn gyflenwi.

1.7.5 Derbyniwn hefyd y bydd potensial ar gyfer buddsoddiad sylweddol drwy ddatblygu Wylfa Newydd a fydd yn rhaeadru i lawr drwy'r economi ar ffurf taliadau i weithwyr, contractau â busnesau lleol a buddsoddi mewn seilwaith.

**1.7.6 Fodd bynnag, er yn cydnabod y gwaith da sydd wedi'i wneud, mae'r diffyg eglurder, ymrwymiad a sylwedd wrth ddatblygu'r SCAP yn creu darlun ansicr.**

## 1.8 Dadleoli

1.8.1 Mae'r mater o Ddadleoli wrth i bobl mewn gwaith ar hyn o bryd symud i swyddi Wylfa Newydd, fel bod angen ail-lenwi swyddi'r cyflogwyr lleol ag ymgeiswyr cymwys, yn cael ei drafod yn fanwl yn y bennod ar Gyflogaeth Leol. Bydd dadleoli'n digwydd i fusnesau lleol a fydd yn ceisio cystadlu ar gyfer Cadwyn Gyflenwi Wylfa Newydd ac sy'n colli staff i'r prosiect. Felly bydd angen i fusnesau yn y Gadwyn Gyflenwi yr effeithir arnynt gael mynediad at y cymorth angenrheidiol i aros yn gystadleuol.

1.8.2 Bydd y cynsail diweddar yn Hinkley Point C yn effeithio ar brosiectau adeiladu newydd eraill yn y DU drwy gynyddu cyflogau a gosod meincnod ar gyfer amodau gwaith a manteision ehangach. Mae hyn yn bryder mawr i'r Cyngor Sir ac y gallai cynllun Wylfa Newydd wyrdroi cyflogau gwaith lleol ac arwain at ddadleoli.

## 1.9 Rôl a Dyfodol Amlwch

1.9.1 Amlwch yw'r dref agosaf at Wylfa Newydd ar yr ynys, dim ond saith milltir i ffwrdd. Mae ganddi boblogaeth o bron i 4,000 ac mae hithau hefyd wedi dioddef yn economaidd gyda nifer o gyflogwyr yn cau. Mae 19% o'i phoblogaeth yn incwm amddifad.[18]

1.9.2 Mae nifer o adeiladau gwag, gan gynnwys capeli a hen fanciau, yn hagru canol y dref. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant yn effeithio ar yr ysgolion, mae hen weithfeydd mwyngloddio a chemegol wedi gadael problemau halogi ac mae'r budd o dwristiaeth wedi bod yn llai na'r disgwyl. Mae taer angen creu strategaeth adfywio ddigamsyniol ar gyfer yr ardal.

1.9.3 Mae'r Cyngor Sir yn y broses o roi strategaeth adfywio at ei gilydd. Bydd ei chanfyddiadau'n darparu map llwybr a chyfres o brosiectau i gyflwyno newid i'r ardal i greu'r amodau iawn ar gyfer buddsoddi a chynnal twf, ond bydd angen cyllid ar gyfer ei gweithredu. Er yn anochel y bydd peth gwariant gan weithwyr ychwanegol yn bwydo trwodd i fusnesau lleol, mae pryderon na fydd yn ddigon ac y gallai effeithiau ehangach Wylfa Newydd danseilio'r dref yn sylfaenol a chael effaith negyddol arni. Dylid felly rhoi sylw dyledus i rôl ac adfywiad Amlwch yn y dyfodol ar sail egwyddor ei hagosatrwydd at Wylfa Newydd.

## 1.10 Crynodeb ac Asesiad o'r Effeithiau Lleol Posib

[18] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Link)

1.10.1 Mae Tabl 6.0 yn crynhoi'r effeithiau lleol posib yn ystod cyfnodau adeiladau a gweithredol prosiect Wylfa Newydd.

Tabl 6.0 – Crynodeb o'r Effeithiau Lleol Posib

| **Effaith** | **Crynodeb o'r Effaith** | **Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol** |
|---|---|---|
| Gwariant lleol | Byddai gwariant lleol o £200m-£400m yn cael effaith gadarnhaol yn syth, ond rydym o'r farn bod y £1.5bn a wariwyd yn Hinkley yn gyraeddadwy.<br><br>Yn 1989 paratôdd y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog Ddatganiad Amgylcheddol[19] gan nodi y byddai'r Orsaf Bŵer arfaethedig yn Wylfa B yn rhoi chwistrelliad ychwanegol o £300m i'r economi leol (Gwynedd a Môn) dros y cyfnod adeiladu. Ar ôl mynegrifo'r ffigur hwn o 1989[20], byddai cyfwerth â thua £725m mewn arian heddiw – llawer uwch nag amcan-ffigur HNP. | Cadarnhaol |
| Cyfleoedd i fusnesau | Bydd datblygiad Wylfa Newydd yn creu cyfleoedd i fusnesau ennill contractau am nifer o flynyddoedd gan felly sicrhau bod swyddi'n cael eu creu. | Cadarnhaol |
| Gwaddol o uwchsgilio a gwella cystadleurwydd | Bydd angen i fusnesau'r ardal uwchsgilio i ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi. Yn ei dro bydd hyn yn gadael gwaddol parhaol o ennill contractau pellach a dod yn fwy cystadleuol. | Cadarnhaol |
| Porthladd Caergybi | Bydd sicrhau bod y porthladd yn chwarae rôl weithredol ac ystyrlon yn y gadwyn gyflenwi'n arwain at fuddsoddiad uniongyrchol gan greu nifer o swyddi dros y cyfnodau adeiladu a gweithredol, am nifer o flynyddoedd. | Cadarnhaol |
| Safleoedd ac adeiladau | Byddai datblygu Wylfa Newydd yn arwain at greu safleoedd ac adeiladau ychwanegol ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru ar gyfer busnesau brodorol a mewnfuddsoddwyr. | Cadarnhaol |
| Cyfleoedd anuniongyrchol | Er na fyddent yn uniongyrchol gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd, bydd | Cadarnhaol |

[19] Yr Orsaf Bŵer PWR arfaethedig yn Wylfa B – Datganiad Amgylcheddol – Y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog, Ebrill 1989 (Atodiad 4B)
[20] Cyfrifydd Chwyddiant y CPI – Cyfradd Chwyddiant y DU, £300 yn 1989 - 2018 (Link)

| | | |
|---|---|---|
| | digonedd o gyfleoedd anuniongyrchol o ddarparu llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu i goginio, glanhau ac yn y blaen. | |
| Dadleoli | Mae potensial sylweddol y bydd y datblygiad – yn enwedig o ganlyniad i fargen gyflogau Hinkley – yn effeithio'n andwyol ar y gadwyn gyflenwi leol gan achosi dadleoli a chwmnïau lleol yna'n methu ag ail-lenwi swyddi. | Negyddol |
| Colli buddsoddiad | Y byddai'r budd i economi Ynys Môn a Gogledd Cymru'n cael ei golli wrth i'r gwariant gan Horizon (a'i Haenau) ar y gadwyn gyflenwi ac ar lafur ollwng allan o'r ardal leol. | Negyddol |
| Senario o lwydd ac aflwydd | Bydd yr effeithiau negyddol a welir drwy gydol y cyfnod adeiladu'n aros ar ôl i effeithiau cadarnhaol y cyfnod adeiladu orffen. | Negyddol |

## 1.11 Ymrwymiadau Arfaethedig

1.11.1 Roedd yn siomedig na chafodd y SCAP ei rannu â'r Cyngor Sir cyn cyflwyno'r DCO ac mae'n anodd dweud felly a yw'n ddigonol i sicrhau manteision i'r gadwyn gyflenwi leol.

1.11.2 Rhaid i'r SCAP ddangos yn glir sut y bwriedir cynorthwyo busnesau lleol i gwrdd â'r gofynion sylfaenol o ran safonau ansawdd a diogelwch i ymuno â'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal rhaid cael dull sicr o ysgogi busnesau newydd i sefydlu ynghyd ag annog cydweithrediad a sicrhau bod busnesau bach a chanolig (BBaCh) Ynys Môn a Gogledd Cymru yn gallu manteisio.

1.11.3 Mae'r effeithiau posib ar y busnesau lleol presennol, eu cadwyni cyflenwi ac ar staff medrus yn dipyn o gleddyf deufin. Mae'r Cyngor Sir yn parhau i fod o'r farn y gallai hyn fod yn effaith negyddol heb sicrhau ymyriadau digonol, amserol a phwrpasol. Heb godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth, bydd y prif gyfleoedd yn yr economi gwerth isel fel trafnidiaeth, arlwyo a glanhau (wele Ffigwr 3.0 uchod). Mae'n eithriadol bwysig sicrhau ymrwymiad ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth, sbarduno ac annog y gadwyn gyflenwi leol.

1.11.4 Fel y mae'r bennod ar Dwristiaeth yn ei nodi, dengys pecynnau lliniaru cymharol y byddai iawndal sylweddol i'r cymunedau lleol. Ein barn felly yw bod rhywbeth mor hanfodol bwysig â chadwyn gyflenwi'n cyfiawnhau cyfraniad ystyrlon er mwyn paratoi, gwrthbwyso a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol o'r prosiect.

1.11.5 Mae Tabl 7.0 yn disgrifio'r pecyn o fesurau a fyddai'n helpu i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a sicrhau na fydd busnesau lleol yn dioddef yn andwyol ac y

medrant fanteisio ar y cyfleoedd. Byddai'r mesurau hyn yn berthnasol ar gyfer cyfnodau adeiladu a gweithredol y prosiect.

Tabl 7.0 – Tabl Lliniaru ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi

| Lliniaru | Rheswm am Liniaru | |
|---|---|---|
| Swyddog Cadwyn Gyflenwi Datblygu Economaidd yn IACC | Gweithio ochr yn ochr (a herio) Horizon i hyrwyddo, ymgysylltu a chefnogi busnesau lleol i gymhwyso ar gyfer a bidio am gontractau gyda Wylfa Newydd. | Ymrwymiad |
| Cyfleoedd contract ar gyfer busnesau lleol a rhanbarthol | Dylunio a mynnu ar gyfleoedd contract o wahanol faint a gwerth er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig lleol gael ennill contractau. | Rheoli |
| Cronfa gadwyn gyflenwi hyblyg Cyllid refeniw | Darparu cymorth pwrpasol i fusnesau BBaCh, ar ben y cymorth presennol, gan gynnwys cymorth i ddod yn achrededig fel y medrant gystadlu am gontractau. | Ymrwymiad |
| Cronfa gadwyn gyflenwi hyblyg Cyllid cyfalaf | Cymorth i ddatblygu adeiladau newydd ac i gynorthwyo cwmnïau cadwyn gyflenwi i wneud gwelliannau ac ehangu. Gellid defnyddio hwn fel "arian cyfatebol" i gefnogi cynlluniau mwy. | Ymrwymiad |
| Defnyddio deunyddiau lleol a rhanbarthol | Ymrwymiad lle bo'n bosib i ddefnyddio deunyddiau lleol a rhanbarthol i adeiladu'r prosiect gan sicrhau cyfleoedd gwaith lleol yn y sector. | Rheoli |
| Ecsbloetio potensial Pantri Môn yn llawn. | Parhau i ddarparu cymorth – gan gynnwys drwy gyllid – i dyfu a chefnogi'r gadwyn cyflenwi bwyd leol er mwyn sbarduno cyfleoedd swyddi. | Rheoli |
| Cronfa gymunedol ar gyfer Amlwch a Chemaes | Sicrhau na "anwybyddir" y dref fwyaf a'r pentref agosaf i'r datblygiad gan gronfa wedi'i dyfeisio i gefnogi'r dref drwy wahanol weithgareddau adfywio ac i liniaru yn erbyn effeithiau andwyol. | Ymrwymiad |
| Horizon i gynnwys yn ei strategaeth gaffael bod angen ymrwymiad gan gyflenwyr mawr i leoli ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Cymru dros y tymor hir, a buddsoddi yn y llafurlu lleol. | Dangos ymrwymiad drwy ddarparu ac achub ar bob cyfle i fusnesau a phobl leol gael bod yn rhan o'r datblygiad. | Rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| Presenoldeb corfforaethol ar Ynys Môn / Gogledd Cymru | Presenoldeb corfforaethol amlwg a sylweddol ar yr ynys dros y cyfnodau adeiladu a gweithredol. Gyda'i swyddogaethau'n esblygu wrth i'r prosiect ddatblygu a thrwy adeiladu ar ei ganolfan ragoriaeth a'i bartneriaeth gwybodaeth â Phrifysgol Bangor a MSParc. Byddai hyn yn arwydd clir a gweladwy o ymrwymiad 100 mlynedd Horizon/ Hitachi. | Rheoli |